Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â chadw llygad gofalus ar wylwyr a delio â phroblemau torf fel symudiadau annisgwyl, gormod o bobl mewn mannau bach, mwy o bobl na'r capasiti ac ymddygiad anghymdeithasol/anghyfreithlon.

Rhennir yr uned yn dair rhan. Mae'r rhan gyntaf yn disgrifio'r ddau beth mae'n rhaid i chi ei wneud, sef:
1.monitro torfeydd ac adnabod problemau posibl
2.dilyn cyfarwyddiadau a gweithdrefnau i ddelio â phroblemau torf

Mae'r ail ran yn disgrifio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae'n rhaid i chi feddu arnynt.

Mae'r drydedd ran yn esbonio beth yw ystyr rhai o'r termau a ddefnyddir yn yr uned.

Mae'r uned hon ar gyfer stiwardiaid a staff eraill tebyg su'n gweithio'n uniongyrchol â gwylwyr er mwyn sicrhau eu lles a'u diogelwch.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Monitro torfeydd ac adnabod problemau posibl

1.cael yr adnoddau angenrheidiol yn barod i'w defnyddio
2.gwneud yn sir bod eich ymddygiad a'ch gwedd yn bodloni safonau y cytunwyd arnynt bob amser
3.cyflawni eich dyletswyddau yn ddiduedd
4.talu sylw gofalus i'r dorf ac i'r sefyllfa yn yr ardal a ddynodwyd i chi drwy gydol cyfnod eich dyletswydd
5.adnabod problemau torf pan maent yn digwydd

Dilyn cyfarwyddiadau a gweithdrefnau i ddelio â phroblemau torf

6.asesu'r broblem torf a rhoi gwybod amdani, gan ateb unrhyw gwestiynau gan oruchwylwyr yn glir ac yn gywir
7.gweithredu gan ddilyn cyfarwyddiadau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt
8.gwneud yn sir nad oes dim gweithred yn beryglus i chi'ch hun nac i'r bobl eraill sy'n gysylltiedig
9.cyfathrebu'n glir â'r bobl sy'n gysylltiedig a'r cydweithwyr
10.tawelu meddwl y bobl sy'n gysylltiedig a'u hannog i fod yn bwyllog ac i ddilyn cyfarwyddiadau
11.rhoi gwybod i'r ystafell reoli/goruchwyliwr am y sefyllfa

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Monitro torfeydd

1.pwysigrwydd gwylio torfeydd a mannau'n ofalus
2.pwysigrwydd gwisgo manylion adnabod stiward bob tro
3.pa adnoddau y bydd angen i chi eu cael a pham
4.beth i chwilio amdano wrth fonitro torfeydd
5.pam ei bod yn bwysig cyflawni dyletswyddau mewn modd diduedd - sut mae gwneud hynny
6.pa fath o ymddygiad a gwedd bersonol sy'n briodol a pham
7.y peryglon penodol i gadw llygad amdanynt yn y mathau o fannau a restrir

Delio â phroblemau torf

8.gofynion cyfreithiol sylfaenol yn ymwneud ag anabledd, gwahaniaethu a diogelwch
9.arwyddion amlwg y mathau o ymddygiad peryglus a restrir
10.sut mae asesu pa mor ddifrifol yw'r ymddygiad
11.y camau cywir i'w cymryd ar gyfer gwahanol fathau o broblem torf a'r gweithdrefnau i'w dilyn
12.technegau rheoli gwrthdaro a thactegau amddiffynnol
13.pam ei bod yn bwysig cyfathrebu'n glir â'r bobl sy'n gysylltiedig a'r cydweithwyr
14.pam ei bod yn bwysig tawelu meddwl y bobl sy'n gysylltiedig a'u hannog i fod yn bwyllog a sut mae gwneud hynny
15.y math o gamau a all eu peryglu hwy a phobl eraill
16.y gweithdrefnau cywir i'w defnyddio i adrodd

Cwmpas/Ystod

1.adnoddau
1.1cyfathrebu
1.2offer diogelwch
1.3allweddi
1.4llawlyfr

2.torfeydd
2.1cyfeillgar
2.2ymosodol
2.3llawn cyffro

3.mannau
3.1mannau cyfyng
3.2mannau agored
3.3mannau cyhoeddus
3.4mannau heb fod yn gyhoeddus

4.problemau torf
4.1symudiadau annisgwyl gan dorf
4.2gormod o bobl mewn mannau bach
4.3mwy o bobl na'r capasiti
4.4gofid
4.5gwahanu unigolion a grwpiau
4.6ymddygiad anghymdeithasol
4.7ymddygiad anghyfreithlon
4.8mynediad i fannau cyfyngedig

5.gweithredu
5.1symud pobl a gwrthrychau
5.2rheoli'r dorf
5.3gwneud yn sir bod y dorf yn eich gweld
5.4tawelu meddwl
5.5rhybuddio

6.pobl
6.1cydweithredol
6.2anghydweithredol
6.3meddw
6.4emosiynol
6.5ddim yn deall fawr o Saesneg

6.6pobl bwysig iawn

6.7ag anghenion penodol

Geirfa

Gwedd
Mae hyn yn cynnwys gwisgo'r dillad cywir, cyflwyno'r ddelwedd broffesiynol a chario'r cyfrwng adnabod cywir.

Asesu
Casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol a nodi a oes problem torf

Cyfathrebu (adnoddau)
Gallai hyn fod yn llyfrau nodiadau ar gyfer cofnodi digwyddiadau neu offer cyfathrebu fel setiau radio, os yw'n briodol.

Man dynodedig
Y man rydych chi'n gyfrifol amdano

Peryglon
Rhywbeth a allai achosi niwed

Diduedd
Heb fod yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw fath penodol o bobl.

Monitro
Cadw llygad barcud ar rywbeth

Adnoddau
Y pethau sydd eu hangen arnoch i wneud eich gwaith yn effeithiol

Ymddygiad anghyfreithlon
Byddai hyn yn cynnwys hiliaeth, ymddygiad bygythiol, trais a mathau eraill o ymddygiad sy'n torri'r gyfraith.

Ymddygiad anghymdeithasol
Er enghraifft, rhegi neu fathau eraill o ymddygiad ymosodol

Ag anghenion penodol
Er enghraifft, pobl anabl, hen bobl, plant ayb

SKAC211W

Monitro gwylwyr a delio â phroblemau torf

Datblygwyd gan	SkillsActive
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2006
Indicative Review Date	Chwefror 2012
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SA44NC211
Galwedigaethau perthnasol	Galwedigaethau Diogelwch Elfennol; Galwedigaethau Elfennol
Cyfres/Set	Gweithrediadau Diogelwch Digwyddiad
Geiriau Allweddol	torfeydd, gwylwyr, stiwardiaid, digwyddiadau, marsialiaid